Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

# ASTUDIAETH ACHOS O WEITHREDU SGANIO ER DIOGELWCH YN YSBYTY GORSEINON

Ym mis Mehefin 2021, cymeradwyodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol achos busnes llawn a buddsoddiad cysylltiedig fel y camau cyntaf tuag at ymgorffori egwyddorion ac arferion Sganio er Diogelwch ledled Cymru. Mae diogelwch cleifion wrth wraidd y rhaglen ac mae safonau data a thechnoleg cipio data yn cael eu cyflwyno ledled GIG Cymru.

Bydd awtomeiddio cysylltu cynhyrchion, lleoedd a phobl a nodwyd yn rhai unigryw yn helpu i atal niwed i gleifion o ganlyniad i ddata amser real yn y man lle rhoddir gofal, a hefyd yn galluogi olrhain dyfeisiau meddygol sydd wedi'u mewnblannu ar unwaith pe bai angen galw cynnyrch neu glaf yn ôl.

Ddiwedd 2021 llofnodwyd contract gydag Omnicell ar gyfer Datrysiad Rheoli Strocrestrau (IMS, SupplyX) a fydd yn defnyddio'r safonau hyn a thechnoleg sganio â llaw i danategu'r buddion uchod. Mae buddion optimeiddio stocrestrau yn rhan annatod o SupplyX. Mae'r dechnoleg hefyd yn gwneud gwaith archebu ac ailgyflenwi stoc yn llai beichus o lawer ac yn rhyddhau amser clinigol i ofalu am gleifion.

# Pam Newid?

Cyn gweithredu:

· Roedd archebu cynhyrchion yn cael ei wneud â llaw a oedd yn golygu neilltuo amser clinigol sylweddol i archebu cynhyrchion trwy iProcurement.

· Roedd yn rhaid awdurdodi archebion a gweithredu rheolau parthed gwyliau angenrheidiol.

· Roedd gormod o gyflenwadau yn yr ysbyty ac nid oedd lefelau PAR yn eu lle.

· O ganlyniad i archebu cynhyrchion â llaw, roedd eitemau yn gallu cael eu hanghofio a ddim yn cael eu harchebu.

· Roedd archebu cynhyrchion yn tueddu i gael ei wneud gan un aelod o staff clinigol oedd yn golygu bod archebu yn eu habsenoldeb yn wael.

# Y camau a gymerwyd

- Lluniwyd adroddiad defnydd ar gyfer yr holl gynhyrchion a archebwyd yn ystod y 12 mis blaenorol a chyfrifwyd ffigurau defnydd wythnosol cyfartalog ar gyfer pob eitem.

- Cafodd setiau sganio â llaw a siacedi atal heintiau cymeradwy eu caffael gan y rhaglen a'u ffurfweddu gan adran Technoleg Gwybodaeth Bae Abertawe. Mae'r setiau sganio â llaw yn ymuno'n awtomatig â rhwydwaith WIFI diogel Bae Abertawe yn y fan a'r lle. Nid ydynt yn gallu defnyddio darparwyr arall.

- Adeiladwyd ystafell stoc o fewn meddalwedd Supply X a'i llwytho â'r cynhyrchion angenrheidiol a'r lefelau stoc targed y cytunwyd arnynt ag uwch dîm clinigol Ysbyty Gorseinon.

- Crëwyd rhyngwyneb dwy ffordd rhwng SupplyX ac Oracle i alluogi archebu awtomataidd.

- Cynhyrchwyd labeli ar gyfer pob eitem a lluniwyd rhestr o stoc cyn i'r system "fynd yn fyw". Mae hyn oherwydd y bydd gwahaniaeth rhwng y stoc ddamcaniaethol a'r stoc (ffisegol) gwirioneddol. Mae hyn yn arbed gwariant ar stoc nes bod y stoc yn cyrraedd y lefelau y cytunwyd arnynt. Ystyrir hyn yn "osgoi costau" (manylion isod). Roedd y gwaith cyfri stoc hefyd yn cynnwys chwilio am eitemau oedd wedi dyddio, oedd yn gwella diogelwch cleifion.

- Rhoddwyd hyfforddiant i ddefnyddwyr ar draws y tîm clinigol (4 defnyddiwr i gyflenwi yn ystod absenoldebau).

# Beth newidiodd / manteision:

**Gwella Diogelwch:**

Mae'r symiau cywir o eitemau bellach ar silffoedd y storfa.

Mae hyn yn gwella diogelwch cleifion ac yn golygu nad oes angen gwneud archebion brys ar gyfer eitemau oedd wedi cael eu hanghofio.

**Profiad y Claf:**

Ardaloedd clinigol llai anniben, sy'n darparu amgylchedd mwy dymunol.

Llai o driniaethau wedi'u canslo oherwydd nad oes digon o stoc ar gael.

**Arbed CO2:**

Llai o wastraff o ran cynhyrchion yn mynd i safleoedd tirlenwi o ganlyniad i ostyngiad cyffredinol mewn cynhyrchion gwastraff/defnydd amgen ar gyfer eitemau megis hyfforddiant/addysg.

Archebu optimaidd - Dim danfoniadau nad ydynt yn hanfodol neu ddychwelyd stoc.

**Gwella Ansawdd:**

Rhyddhau ardaloedd clinigol trwy reolaeth stoc fwy effeithiol.

Defnyddio'r feddalwedd i nodi anghysondebau o ran lefelau stoc ac ymchwilio i wahaniaethau gwerth uchel.

Stoc yn cael ei archebu i gyrraedd lefelau y cytunwyd arnynt fel na fydd eitemau'n cyrraedd diwedd eu hoes.

**Profiad staff:**

Gall staff clinigol bellach neilltuo llai o amser i reoli stoc a neilltuo mwy o amser i gyflawni eu tasgau clinigol o ddydd i ddydd.
Mae'r system yn darparu cyfres ddefnyddiol o adroddiadau y gellir eu defnyddio i helpu i lywio a strwythuro cynllunio clinigol.
Gellir cofnodi rhesymau dros wastraffu eitemau ar setiau llaw i lywio arferion a gwneud penderfyniadau.
Bellach gellir cyfrifo stoc diwedd blwyddyn trwy wneud cyfrifiad syml ar y system.
Mae'n arbed amser i'r tîm deunyddiau, drwy osgoi'r angen i wneud archebion neu adolygu stoc â llaw i weld yr hyn sydd angen ei archebu.
Mae hefyd yn diddymu'r risg bosib o beidio ag archebu eitemau gofynnol â llaw oherwydd nad yw staff yn gwybod amdanynt neu nad yw sticer wedi'i ddarparu.

**Buddion Ariannol:**

Cyfrif y Stoc Ffisegol £12 524.45
Cyfrif y Stoc Damcaniaethol £3 297.14
Y costau wedi'u hosgoi £9 227.31



## Rhwystrau a Gwersi a Ddysgwyd

Cyn gweithredu'r system newydd ychydig iawn o gofnodion oedd yn bodoli o ran pa stoc oedd yn cael ei gadw ymhle a symiau targed y cytunwyd arnynt. Roedd hyn yn golygu fod angen treulio mwy o amser yn ystod y cyfnod cyn gweithredu'r system newydd yn catalogio stoc ac yn cytuno ar leoliadau a lefelau stoc targed.

Nodwyd hefyd y dylai mwy nag un aelod o staff fod yn archebu'n wythnosol er mwyn gallu ymgyfarwyddo â'r system sganio. Bydd hyn yn lliniaru problemau archebu pan fo staff yn absennol.

Ar y cyfan, croesawyd gweithredu'r system newydd gan y staff ac roedd y broses o gyflwyno'r system yn gymharol hawdd a di-boen.

## Manylion Cyswllt

**Rhys Davies** - Partner Busnes Logisteg a Rheoli Deunyddiau (BIP Bae Abertawe a Felindre)
rhys.davies13@wales.nhs.uk

**Sganio er Diogelwch PCGC**
ScanforSafetyWales@wales.nhs.uk
https://pcgc.gig.cymru/rhaglenni-cymru-gyfan/croeso-i-sganioerdiogelwch-cymru/